


Ionawr 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd barn a sylwadau ar fersiwn ddrafft Cod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn dilyn ymgynghoriad, caiff fersiwn derfynol o'r Cod ei chyhoeddi gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat ac / neu iaith amgen, neu os oes genych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion isod. Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Sut i ymateb

Ymatebwch drwy gwblhau'r ffurflen ymateb sydd ar gael yn y ddolen hon erbyn 26 Mawrth 2018. Cewch gwblhau'r ffurflen yn Gymraeg neu Saesneg.

Fel arall, anfonwch eich ymateb atom yn ysgrifenedig drwy'r post neu e-bost gan ddefnyddio'r manylion isod.

Ymgynghoriad ar y Cod
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

E-bost: post@archwilio.cymru
Ffôn 02920 320 500

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion uchod neu drwy ein ffonio ar 029 2032 0500.

Cyhoeddi ymatebion – cyfrinachedd a diogelu data

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (sef Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn bennaf, ond hefyd Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech ddweud wrthym pam rydych o'r farn bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu gwybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd ar bob achlysur. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a grëir gan eich system TG, ynnddo'i hun, yn cael ei ystyried yn gyfrwymol ar yr Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru.

Caiff data personol eu trin yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Lle mae data o'r fath o fewn cwmpas cais am wybodaeth gan berson arall, bydd angen ystyried darpariaethau Deddfau 1998 a 2000 o dan yr amgylchiadau penodol. Er na ellir rhagfarnu unrhyw sefyllfa, mae hyn yn debygol o olygu bod gwybodaeth sy'n ymwneud ag uwch-swyddogion a ffigurau cyhoeddus yn debygol o gael ei datgelu ond mae enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd yn debygol o gael eu hatal.

© Swyddfa Archwilio Cymru 2018

Rhagair



Mewn ymateb i ofynion cyfreithiol a phroffesiynol newydd, ac ystyried y strategaeth tair blynedd a'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Blyneddol a gyhoeddais ar y cyd â Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, rwy'n cynnig gwella a diweddarau'r gyfres sylfaenol o egwyddorion ar gyfer y rhai sy'n cyflawni gwaith ar fy rhan.

Mae fy nghynigion wedi'u gosod mewn drafft diwygiedig o'r Cod Ymarfer Archwilio sy'n nodi'r ffordd y bydd fy swyddogaethau archwilio a swyddogaethau penodol eraill yn cael eu cyflawni. Drwy'r diweddariad hwn rwyf hefyd yn ymateb i'r ymrwymiad a roddais i'r Pwyllgor Cyllid y byddwn yn adolygu fy Nghod yn flynyddol.

Rwy'n rhoi'r pwys mwyaf i ansawdd y gwaith a gynhelir ar fy rhan.

Mae'r fersiwn ddrafft ddiwygiedig hon o'r Cod wedi'i chynllunio i gyrraedd safonau uchel o ansawdd archwilio, ategu'r Safonau Archwilio Rhyngwladol ac mae'n ymgorffori'r hyn sy'n cynrychioli arfer proffesiynol gorau i mi.

Byddaf yn gwneud gwaith i gyflawni fy nghyfrifoldebau newydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a byddaf yn trafod sut y gall y datblygu cynaliadwy gael ei ymgorffori'n ystyrllon i fy rhaglenni gwaith a gynlluniwyd. Byddaf hefyd yn sicrhau bod y Cod yn cael ei gymhwyso wrth gynnal swyddogaethau archwilio o dan y Ddeddf.

Rwy'n credu'n gryf y bydd y gyfres ddiwygiedig o egwyddorion a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn fy ngalluogi i wella ymhellach y cyfraniad y gall fy archwilywyr a mi ei wneud at atebolrwydd democrataidd; helpu'r Cynulliad Cenedlaethol a phobl Cymru i wybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth.

Edrychaf ymlaen at gael eich barn ar fy nghynigion.

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cynnwys

Mae'r Cod hwn yn nodi sut y dylid cyflawni fy swyddogaethau archwilio a swyddogaethau penodol eraill	6
Diben archwilio'r sector cyhoeddus yw adrodd ar stiwardiaeth arian cyhoeddus, gan ddarparu darlun o'r sefyllfa a hyrwyddo gwelliant	7
Mae fy ngwaith archwilio yn seiliedig ar bedair egwyddor – canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, yn gymesur ac yn atebol	9
Mae'r Cod hwn yn nodi sut y dylai fy archwilyddwr gyflawni fy swyddogaethau	11
Trefniadau priodol ar gyfer sicrhau trefniadau i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol	14
Archwilio cyfrifon	16
Ardystio ceisiadau a ffurflenni	19
Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian	20
Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	26
Cyflawni swyddogaethau archwilio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol	27
Atodlen 1: Swyddogaethau penodol eraill	28
Atodlen 2: Archwilio cyrff bach	33
Atodlen 3: Cwmpas y Cod	35
Cwestiynau'r ymgynghoriad	37

Cod Ymarfer Archwilio

Mae'r Cod hwn yn nodi sut y dylid cyflawni fy swyddogaethau archwilio a swyddogaethau penodol eraill

- 1 Fi yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru. Mae Deddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013 a Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, ynghyd ag amrywiaeth o ddeddfau eraill gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn darparu sail statudol i fy ngwaith. Ceir rhagor o wybodaeth am sail statudol fy ngwaith yn 'Canllaw i ddeddfwriaeth archwilio cyhoeddus Cymru'.
- 2 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn nodi bod yn rhaid i mi gyhoeddi cod ymarfer archwilio, sy'n nodi sut y dylai fy swyddogaethau archwilio (a swyddogaethau penodol eraill) gael eu cyflawni, ac sy'n ymgorffori'r arfer proffesiynol gorau yn fy marn i. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio hwn (y Cod) yn cyflawni'r diben hwnnw ac yn disodli'r Cod a gyhoeddwyd ar 1 Ebrill 2014.
- 3 Gall y swyddogaethau y mae'r Cod hwn yn sôn amdanynt gael eu cyflawni gennyf neu eu dirprwyo i eraill¹.
- 4 Mae'r term 'fy archwilwyr' fel y'i defnyddir yn y Cod hwn, yn berthnasol i:
 - a gweithwyr cyflogedig Swyddfa Archwilio Cymru; a
 - b unrhyw unigolyn y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi contractio ag ef i ddarparu gwasanaethau i mi.
- 5 Mae Atodlen 1 i'r Cod hwn yn nodi'r ffordd y bydd fy swyddogaethau penodol eraill yn cael eu cyflawni. Mae rhai o'r swyddogaethau hyn wedi'u cynnwys fel y'u nodir gan Ddeddf 2013, ac mae rhai wedi'u cynnwys oherwydd ystyriaeth ei bod yn briodol eu cynnwys.
- 6 Mae Atodlen 2 i'r Cod hwn yn nodi'r ffordd y caiff archwilio 'cyrff bach' ei gynnal.
- 7 Mae Atodlen 3 i'r Cod hwn yn amlinellu'r swyddogaethau y mae darpariaethau'r Cod hwn yn berthnasol iddynt ar sail statudol. Byddaf hefyd yn cymhwyso darpariaethau'r Cod hwn i'm harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy.
- 8 Byddaf yn cyhoeddi canllawiau atodol i'm harchwilwyr o bryd i'w gilydd ar sut i ddefnyddio'r Cod hwn, gan gynnwys trefniadau ar gyfer asesu cydymffurfiaeth â'r Cod hwn.

1 Rhaid i mi baratoi cynllun er mwyn dirprwyo'n llwyr neu'n rhannol unrhyw rai o'm swyddogaethau i weithiwr cyflogedig Swyddfa Archwilio Cymru neu unigolyn sy'n darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru

Diben archwilio'r sector cyhoeddus yw adrodd ar stiwardiaeth arian cyhoeddus, gan ddarparu darlun o'r sefyllfa a hyrwyddo gwelliant

- 9 Mewn democratiaeth, mae llywodraeth yn atebol i'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig. Er mwyn hwyluso'r atebolrwydd hwn, rhaid i'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr gael eu hysbysu'n briodol am weithgareddau'r llywodraeth a'i defnydd o gronfeydd cyhoeddus; mae arnynt angen gwybodaeth sy'n amserol, yn ddiuedd, yn gywir, yn gynhwysfawr ac yn glir.
- 10 Mae archwilio annibynnol o weithgareddau'r llywodraeth a'r defnydd o gronfeydd cyhoeddus gan y rhai sy'n gyfrifol am stiwardio'r cronfeydd hynny yn rhan annatod o atebolrwydd democrataidd. Mae archwilwyr allanol yn mynd ati'n annibynnol i archwilio a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a sicrhau bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdano. Mae archwilio'r sector cyhoeddus yn golygu mwy na mynegi barn ar y cyfrifon. Mae hefyd yn rhoi sylw i faterion megis rheoleidd-dra (a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy), priodoldeb (a yw busnes cyhoeddus yn cael ei gyflawni mewn ffordd sy'n bodloni disgwyliadau Senedd y DU, y Cynulliad Cenedlaethol a'r cyhoedd) a gwerth am arian. Mae archwilwyr yn cyflawni'r gwaith hwn ar ran y cyhoedd ac er budd y cyhoedd. Nid yw cwestiynu teilyngdod polisïau'r llywodraeth yn rhan o'm swyddogaethau innau na swyddogaethau fy archwilwyr, ond gallwn archwilio'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau polisi ac ystyried effeithiau rhoi'r polisi ar waith.
- 11 Mae archwilio'n ychwanegu gwerth at gymdeithas drwy:
 - a rhoi sicrwydd², pan fo'n deilwng, neu, lle nad yw'n deilwng, rhoi gwybod am faterion sy'n peri pryder, o ran cynnal busnes cyhoeddus a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus;
 - b rhoi syniad o ran i ba raddau y mae adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddoeth wrth ddiwallu anghenion pobl; anodi a hyrwyddo ffyrdd o wella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

2 Mae 'Sicrwydd' yng nghyd-destun archwilio cyhoeddus yn cyfeirio at ddatganiad o hyder, er enghraifft, bod cyfrifon corff cyhoeddus yn cyflwyno darlun gwir a theg, neu, yn fwy cyffredinol, bod materion fel y dylent fod.

- 12 Fodd bynnag, ni ddylai archwilio allanol ddisodli cyfrifoldebau llywodraethau a chyrrff cyhoeddus eraill, ac ni ddylai ddisodli'r angen i gyrff cyhoeddus gael cyngor cyfreithiol neu broffesiynol arall a rhoi trefniadau rheoli mewnol effeithiol ar waith, gan gynnwys trefniadau archwilio mewnol³. Y cyrrff cyhoeddus eu hunain sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a safonau priodol a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol⁴.
- 13 Rwy'n gyfrifol am archwiliad allanol y rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys incwm a gwariant y mae'r Cynulliad yn pleidleisio arnynt yn flynyddol. Caiff elfennau sylweddol o'r arian hwn eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i'r GIG yng Nghymru ac i lywodraeth leol.
- 14 Bob blwyddyn, gyda chymorth Swyddfa Archwilio Cymru, rwy'n cyflawni rhaglen eang ond cymesur o waith archwilio allanol, ochr yn ochr â swyddogaethau penodol eraill, yn unol â'm dyletswyddau a phwerau statudol. Mae'r rhaglen gyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon, archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian, archwiliadau ac asesiadau gwella llywodraeth leol, ardystio hawliadau grant a chymorthdaliadau, a pharu data. Bydd y rhaglen hon bellach yn ymgorffori archwiliadau datblygu cynaliadwy hefyd er mwyn cyflawni fy nyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 15 Caiff arfer da ei nodi ym mhob rhan o'r gwaith archwilio a'i rannu drwy Gyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru (adnodd am ddim ar y we) a chyfryngau eraill, gan gynnwys seminarau dysgu a rennir.

3 Dylai swyddogaeth archwilio mewnol corff cyhoeddus gyflawni gweithgareddau sicrwydd ac ymgynghori gyda'r nod o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y corff hwnnw.

4 Am ragor o wybodaeth, gweler Datganiad o Gyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol ar ein gwefan.

Mae fy ngwaith archwilio yn seiliedig ar bedair egwyddor – canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, yn gymesur ac yn atebol

- 16 Ochr yn ochr â gofynion cyfreithiol a phroffesiynol penodol, mae fy ngwaith archwilio yn seiliedig ar bedair egwyddor gydnabyddedig Rhaid i'm harchwilwyr gyflawni eu gwaith yn gyson yn unol â'r egwyddorion hyn.

Canolbwyntio ar y cyhoedd

- 17 Cyflawnir y gwaith archwilio allanol ar ran y cyhoedd ac er budd y cyhoedd. Mae cwmpas archwilio'r sector cyhoeddus yn ehangach na'r sector preifat ac mae'n rhan allweddol o'r broses o ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif. Mae buddiannau'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr yn hollbwysig mewn gwaith archwilio yn y sector cyhoeddus, ac felly dylid eu cynnwys gyda'i brosesau. Rhaid i allbynnau gwaith archwilio'r sector cyhoeddus fod yn hygyrch, yn amserol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn berthnasol i randdeiliaid.

Bod yn annibynnol

- 18 Rhaid i bob gwaith archwilio fod yn annibynnol. Rhaid cyflawni'r gwaith ag uniondeb ac mewn ffordd wrthrychol a diduedd. Felly, rhaid ei gyflawni yn unol â safonau ac ystyriaethau moesegol perthnasol. Ni ddylwn innau na'm harchwilwyr gael ein gorfodi gan unrhyw fudd penodol wrth gyflawni ein gwaith, a dylem gyflwyno adroddiadau'n gyhoeddus heb ddangos ffafriaeth nac ofni'r goblygiadau.

Bod yn gymesur

- 19 Mae angen digon o le ar ddarparwyr gwasanaethau fel y gallant ddarparu gwasanaethau o'r safon uchaf a bod yn destun craffu i raddau digonol ond nid gormodol. Mae sicrhau'r cydbwysedd hwn yn rhan bwysig o'm dyfarniadau innau a'm harchwilwyr wrth bennu natur, cwmpas, maint a hyd gwaith archwilio. Rhaid i'm harchwilwyr ymgymryd â thasgau penodol a chael y wybodaeth a'r esboniadau angenrheidiol er mwyn darparu tystiolaeth ddigonol i gyflawni fy nghyfrifoldebau, ond nid oes disgwyl iddynt adolygu pob agwedd ar drefniadau, systemau neu gofnodion y cyrff a archwilir.

Bod yn atebol

- 20 Mae archwilwyr y sector cyhoeddus yn cael eu hariannu gan arian cyhoeddus, a nhw sy'n gyfrifol am stiwardiaeth yr adnoddau a ddarperir iddynt. Rhaid iddynt gyflawni eu gwaith yn unol â safonau rhyngwladol a chenedlaethol a, lle y bo'n berthnasol, rhaid iddynt weithio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Rhaid i mi a'm harchwilwyr gyflawni ein gweithgareddau mewn ffordd ddigon tryloyw, yn unol â'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywio ein gwaith, fel bod pob parti'n deall y rheswm wrth wraidd y gwaith archwilio.

- 21 Bydd angen i'm harchwilwyr ystyried sut i gymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn unol â chanllawiau y byddaf yn eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd.
- 22 Mae cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Er mwyn gweithredu yn y modd hwnnw, rhaid i gyrff cyhoeddus ddilyn y 'pum ffordd o weithio', sydd fel a ganlyn:
- a Edrych i'r hirdymor fel nad ydynt yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
 - b Cymryd ymagwedd integredig fel bod gyrff cyhoeddus yn ystyried pob un o'r nodau llesiant wrth bennu eu hamcanion llesiant.
 - c Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
 - ch Cydweithio ag eraill er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir.
 - d Deall achosion sylfaenol problemau i'w hatal rhag digwydd.⁵

Cwestiwn Ymgynghori 1

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r pedair egwyddor rwy'n cynnig y dylent fod yn sail i'm gwaith archwilio?

⁵ Adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Cod hwn yn nodi sut y dylai fy archwilwyr gyflawni fy swyddogaethau

- 23 Yn ogystal â dilyn y pedair egwyddor a nodir yn y Cod hwn, rhaid i'm harchwilwyr gydymffurfio â'r gofynion canlynol wrth gynnal eu holl waith:
- a sicrhau bod y gwaith yn cael ei gynnal yn unol â safonau ansawdd a nodaf mewn canllawiau o bryd i'w gilydd;
 - b cydymffurfio â safonau moesegol sydd ar waith ar y pryd ac a all gael eu diwygio o bryd i'w gilydd, ac sy'n berthnasol yn fy marn i;
 - c ystyried fy amcanion strategol a chanllawiau a chynghor pellach a ddarperir gennyf; a
- ch cysylltu'n effeithiol, lle y bo'n briodol, â rheoleiddwyr ac unrhyw swyddogaethau archwilio mewnol perthnasol.
- 24 Mae'n ofynnol i mi roi gwybod i'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol⁶ am unrhyw achosion neu amheuan o drafod enillion troseddau neu ariannu terfysgol (gwyngalchu arian) y bydd fy archwilwyr a minnau yn dod i gysylltiad â hwy yn ystod ein gwaith. Felly, wrth gyflawni eu holl waith, rhaid i'm harchwilwyr gadw meddwl agored i'r posibilrwydd bod unigolion yn trafod enillion troseddau a dylent gysylltu â Swyddog Adrodd Gwyngalchu Arian Swyddfa Archwilio Cymru os oes ganddynt unrhyw wybodaeth neu amheuan. Rhaid i'm harchwilwyr sicrhau hefyd eu bod yn cydymffurfio â gofynion adrodd penodol eraill wrth gyflawni eu gwaith⁷.
- 25 Rhaid i'm harchwilwyr hefyd:
- a ystyried datblygu cynaliadwy a sut i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy⁸;
 - b diogelu a hyrwyddo hawliau dynol⁹;

6 O dan Reoliadau Gwyngalchu Arian, Cyllido Terfysgaeth a Throsoglwyddo Cyllid (Gwybodaeth am y Talwr) 2007

7 Megis y rhai sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 a Deddf Elusennau 2011.

8 Yn y Cod hwn, ystyr 'datblygu cynaliadwy' yw'r un ystyr ag adran 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, h.y. y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler adran 5 o Ddeddf 2015), gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant (gweler adran 4 o Ddeddf 2015).

9 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ddyletswydd i ddiogelu'r hawliau Erthygl o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a ddaeth i gyfraith yn y DU gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998

- c peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a osodwyd arnaf a, chyn belled ag sy'n berthnasol i arfer fy swyddogaethau, Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar Swyddfa Archwilio Cymru (fel mewn perthynas â darparu gwasanaeth derbynfa);
- ch cynllunio eu gwaith a chadw cofnod o'r cynlluniau hynny, gan gynnwys sicrhau:
 - i bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r swyddogaeth maent yn ei harfer;
 - ii meddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o'r ddeddfwriaeth, polisïau, canllawiau a modelau llywodraethu sy'n gymwys i'r cyrff maent yn eu harchwilio;
 - iii lle mae'r swyddogaeth sy'n cael ei harfer yn arwain at adroddiad, dewis neu gynllunio dulliau archwilio sy'n darparu tystiolaeth berthnasol a dibynadwy ddigonol i ddarparu adroddiad.
- d trafod gyda'r cyrff a archwilir perthnasol y gwaith archwilio a gynlluniwyd gyda'r cyrff a archwilir perthnasol ar gam cynnar yn y gwaith lle bynnag y bo'n bosibl, gan gynnwys y materion a'r risgiau sy'n berthnasol i'r archwiliad, y costau a ragwelir a sut y gall y cyrff a archwilir gyfrannu er mwyn sicrhau archwiliad effeithlon, er enghraifft, drwy gynhyrchu'r papurau gwaith gofynnol mewn ffordd amserol ac effeithiol a thrwy ymateb yn llawn ac yn brydlon i geisiadau am wybodaeth;
- dd sicrhau bod yr holl ddata a dderbynnir neu a geir yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill o ran casglu a phrosesu gwybodaeth;
- e hysbysu trydydd partion y gall eu hawliau a'u buddiannau gael eu heffeithio'n sylweddol gan waith sydd i'w gynnal o dan y cynllun archwilio o'r agweddau hynny o'r cynllun sy'n debygol o effeithio arnynt; a
- h adolygu'r gwaith a gynlluniwyd drwy gydol yr archwiliad a diweddarau yn

10 Gosodwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a rheoliadau o dan y Mesur hwnnw

11 Codir ffioedd am waith archwilio yn unol â'r cynllun a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

ôl yr angen.

- 26 Rhaid i'm harchwilwyr hefyd gynnal Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, h.y. rhoi sylw dyladwy i arfer fy swyddogaethau ar gyfer yr angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da¹². Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd honno, rhaid i'm harchwilwyr:
- a ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol ar sut i ystyried y ddyletswydd hon wrth gynllunio gwaith archwilio;
 - b darparu hyfforddiant i staff i'w cynorthwyo wrth ymdrin ag anghenion amrywiol rhanddeiliaid wrth gynnal gwaith archwilio;
 - c cyhoeddi allbynnau archwilio ar ffurf sy'n cydymffurfio â safonau hygrychedd priodol;
 - ch cyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau archwilio mewn arddull sy'n adlewyrchu'r gynulleidfa;
 - d cyflwyno adroddiad ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth lle y bo'n briodol; a
 - dd cynorthwyo cyrff cyhoeddus eraill wrth graffu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- 27 Mae gennyf hawliau cyfreithiol eang mewn perthynas â mynediad at wybodaeth a dogfennau sy'n bwysig er mwyn i mi allu cyflawni fy swyddogaethau'n briodol. Bydd fy archwilwyr yn mynd ati'n drylwyr i orfodi hawliau o'r fath gan fod atal hawliau mynediad yn llyffetheirio eu gallu i gyflawni eu gwaith yn iawn ac yn cynyddu cost y gwaith hwnnw.
- 28 I osgoi unrhyw gamddealltwriaeth posibl pan yr ymddengys fod hawliau mynediad yn cael eu hatal gan unrhyw unigolyn, rhaid i'm harchwilwyr esbonio'r hawliau perthnasol i'r unigolyn dan sylw. Os bydd yr unigolyn yn parhau i geisio atal mynediad ar ôl hyn, rhaid i'm harchwilwyr, lle rwyf o'r farn bod hynny'n briodol, gymryd camau cyfreithiol er mwyn cael gafael ar

12 Fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

y dogfennau perthnasol ac adennill unrhyw gostau cysylltiedig.

- 29 Rhaid i'm harchwilwyr gydymffurfio â'r gofynion priodol canlynol wrth wneud gwaith ar fy rhan ar draws y swyddogaethau canlynol:
- a boddhad bod cyrff yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau (y 'casgliad gwerth am arian');
 - b archwilio cyfrifon;
 - c ardystio ceisiadau a ffurflenni;
 - ch archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian; ac
 - d archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy.

Trefniadau cywir i sicrhau trefniadau i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol¹³

- 30 Er mwyn fy ngalluogi i fodloni fy hun bod gan gorff llywodraeth leol neu'r GIG drefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ('gwerth am arian'), ac i ddod i gasgliad yn unol â hynny, rhaid i'm harchwilwyr ddatblygu rhaglen flynyddol o waith at y diben hwnnw ym mhob corff o'r fath. Rhaid i'r rhaglen fod yn seiliedig ar asesiad o'r risgiau na fydd y corff yn gwneud trefniadau priodol, gyda'r gwaith yn canolbwyntio ar y meysydd risg mwyaf.
- 31 Rhaid i'r rhaglen gynnwys adolygiad o gynllunio trefniadau sylweddol i sicrhau gwerth am arian, a, lle y bo'n briodol o ystyried yr asesiad risg, profi effeithiolrwydd gweithredu'r trefniadau hynny. Oherwydd gall profi mewn un flwyddyn gynnwys perthnasedd parhaus i asesu risg a gwaith adolygu arall, gall dyfnder y sylw amrywio o flwyddyn i flwyddyn.
- 32 Wrth gynllunio'r rhaglen, rhaid i'm harchwilwyr ystyried trefniadau corfforaethol a lefel gwasanaeth, gan gynnwys cynllunio strategol, cynllunio ariannol, rheoli perfformiad a risg, cynllunio'r gweithlu, rheoli asedau, cydweithio a llywodraethu cyffredinol.
- 33 Wrth adolygu trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian, rhaid i'm harchwilwyr roi sylw penodol i arfer llywodraethu a rheoli da, a rhaid iddynt ddilyn unrhyw ganllawiau ychwanegol y gallaf eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd.

¹³ Daw'r rhan hon o'm Cod i rym ar gyfer blynyddoedd cyfrif 2018-19.

- 34 I'r graddau y maent yn berthnasol i drefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian, rhaid i'm harchwilwyr ystyried y canlynol:
- a canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys gwaith cysylltiedig fel adolygiad o'r datganiad llywodraethu blynyddol a gohebiaeth ynghylch y corff a archwilir;
 - b canlyniadau gwaith arall y gallaf ei gynnal, gan gynnwys archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian, archwiliadau'r egwyddor datblygu cynaliadwy (o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), ardystio ceisiadau a ffurflenni, ac ymarferion paru data;
 - c canlyniadau gwaith archwilio mewnol a chyrrff adolygu allanol eraill lle y bo'n briodol;
 - ch canfyddiadau fy ngwaith mewn blynyddoedd blaenorol lle mae hynny'n parhau'n berthnasol; a
 - d unrhyw waith arall sy'n mynd i'r afael â materion nad ydynt yn cael sylw gan yr uchod, ac y mae fy archwilwyr yn ystyried yn angenrheidiol i gyflawni fy nyletswyddau.
- 35 Lle y bo'n gydnaws â gofynion statudol a phroffesiynol, wrth ymgymryd â gwaith i archwilio'r trefniadau, byddaf yn ceisio ei integreiddio â chyflawni gwaith arall o'r mathau a restrwyd uchod.
- 36 Dylai gwaith fy archwilwyr gael ei gynllunio i roi digon o sicrwydd i'm galluogi i fodloni fy hun ym mhob agwedd sylweddol bod cyrrff y GIG a llywodraeth leol wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau.
- 37 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed, byddaf yn cyflwyno adroddiad ar fy nghasgliadau ar bob corff y GIG a llywodraeth leol yn flynyddol, gydag adroddiadau sylweddol ar wahân lle ceir materion nodedig.

Archwilio cyfrifon

- 38 Rwy'n cyhoeddi adroddiadau ar gyfrifon y cyrff cyhoeddus a archwilir gennyf. Mae adroddiadau archwilio yn cynnwys barn ar:
- a yw'r datganiadau ariannol yn cyflwyno'n briodol neu'n rhoi darlun gwir a theg, fel y bo'n briodol, o faterion ariannol y corff;
 - a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n gywir yn unol â deddfwriaeth berthnasol, cyfarwyddiadau a safonau cyfrifyddu; a
 - rheoleidd-dra¹⁴ trafodion cyrff sy'n destun craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy rinwedd eu cyfrifon (neu gyfrifon eu rhiant gorff) a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
- 39 Wrth gynnal gwaith ar fy rhan, rhaid i archwilyr gydymffurfio â safonau archwilio a moesegol sydd mewn grym¹⁵, fel yr hysbysir gennyf mewn canllawiau fel rhai sy'n ymddangos yn berthnasol i mi. Rhaid i'm harchwilyr hefyd ystyried canllawiau a chyingor cysylltiedig a gyhoeddir gennyf, neu ar fy rhan.
- 40 Ac eithrio cyrff a gwmpesir gan Atodlen 2 i'r Cod hwn, rhaid i'm harchwilyr gynnal eu gwaith fel y gallaf roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol cysylltiedig yn:
- rhydd o gamddatganiadau perthnasol, a achoswyd drwy dwyll neu wall;
 - cydymffurfio â'r gofynion statudol a'r gofynion cymwys eraill, yn cynnwys rheoleidd-dra trafodion mewn cyrff lle bo hyn yn ofynnol; ac
 - yn bodloni'r holl ofynion cyflwyno a datgelu perthnasol o ran cyfrifyddu.
- 41 Ar gyfer cyrff a gwmpesir gan Atodlen 2 i'r Cod hwn, rhaid i'm harchwilyr gynnal eu gwaith yn unol â'r Atodlen honno.
- 42 Mae hefyd yn ofynnol i mi roi barn archwilio ar y Datganiad Treth blynyddol a baratoir gan Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'r datganiad hwn yn crynhoi gwybodaeth am gasglu a dyrannu refeniw treth o dan bwerau treth datganoledig Cymru. Byddaf yn archwilio'r datganiad hwn yn unol â safonau archwilio perthnasol fel yr wyf yn eu dehongli i fodloni'r gofynion adrodd a nodir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a gyhoeddir gan yr Awdurdodau Perthnasol.

¹⁴ Gweler paragraffau 43 a 44

¹⁵ Gan gynnwys y Safon Ryngwladol ar Archwilio a safonau eraill a gydnabyddir yn rhyngwladol

- 43 Lle mae cyrff yn destun craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy rinwedd gosod eu cyfrifon (neu gyfrifon eu rhiant gorff) gerbron y Cynulliad, rhaid i'm harchwilwyr gynllunio a chynnal gwaith archwilio ar fy rhan er mwyn mynd i'r afael â'r cysyniad o reoleidd-dra a chaniatáu i mi roi barn ar reoleidd-dra'r trafodion y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy. Rheoleidd-dra, fel y nodir yn 'Nodyn Ymarfer 10: Archwilio datganiadau ariannol cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig' a gyhoeddwyd gan y Fforwm Archwilio Cyhoeddus a'i gymeradwyo gan y Cyngor Adrodd Ariannol, yw'r cysyniad bod yn rhaid i drafodion a adlewyrchir yn natganiadau ariannol endid a archwilir fod yn unol â fframwaith perthnasol awdurdodau. Mae fframweithiau o'r fath yn cynnwys:
- a deddfwriaeth awdurdodi;
 - b awdurdodau seneddol, gan gynnwys awdurdodau'r Cynulliad Cenedlaethol, fel cynigion cyllidebol a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol; ac
 - c awdurdodau gweinyddol, fel dirprwyaethau, a chanllawiau, fel cyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'.
- 44 Mae darparu'r farn ar reoleidd-dra yn hollbwysig i reolaeth ddemocrataidd cyllid cyhoeddus. Un o swyddogaethau allweddol y Cynulliad Cenedlaethol yw cymeradwyo, yn dilyn craffu, cynigion cyllidebol i awdurdodi Llywodraeth Cymru a chyrff eraill i ddefnyddio adnoddau cyhoeddus. Er mwyn cwblhau'r cylch o reolaeth, mae'n angenrheidiol i'r Cynulliad Cenedlaethol dderbyn adroddiadau ynghylch a yw'r adnoddau a bleidleisiwyd ganddo wedi'u defnyddio yn unol â'i fwriadau. Felly, rhaid i farn ar reoleidd-dra trafodion (y farn ar reoleidd-dra) gynnwys gwaith i ddod i gasgliad ynghylch a yw'r trafodion yn unol â fframwaith perthnasol awdurdodau.
- 45 Rhaid i'm harchwilwyr, lle bo gofyn, adolygu a llunio adroddiad ar ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan hefyd.

- 46 Cyflwynir adroddiadau ar gynlluniau a chanlyniadau gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol drwy amrywiaeth o allbynnau priodol. Gallaf innau, neu fy archwilwyr, gyhoeddi'r canlynol ac allbynnau eraill yn ystod y broses archwilio:
- a dogfen cynllunio archwiliad;
 - b adroddiadau neu femoranda llafar ac ysgrifenedig i unigolion priodol ar ganlyniadau agweddau penodol ar fy ngwaith neu faterion sy'n codi o agweddau penodol ar fy ngwaith;
 - c adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu sy'n crynhoi fy nghanfyddiadau a'm casgliadau;
 - ch adroddiad archwilio gan gynnwys fy marn ar y datganiadau ariannol;
 - d tystysgrif bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau yn unol â'r gofynion statudol; ac
 - dd adroddiad sylweddol cysylltiedig os yw fy marn archwilio yn amodol¹⁶ neu os wyf am gyflwyno adroddiad ar unrhyw fater.
- 47 Lle mae adroddiadau o Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad yn cynnwys argymhellion ar gyfer cyrff a archwilir, neu wybodaeth arall sy'n berthnasol iddynt hwy, rhaid i'm harchwilwyr ddod â'r argymhellion hynny a'r wybodaeth honno at sylw unigolion perthnasol, er enghraifft, mewn diweddariadau i bwyllgorau archwilio lleol neu'r hyn a fyddai'n cyfateb iddynt.
- 48 Wrth wneud adroddiad sylweddol, mae gofynion paragraff 64 o'r Cod hwn yn berthnasol i adroddiad o'r fath fel pe bai'n adroddiad ar archwiliad neu astudiaeth gwerth am arian.
- 49 Rhaid i archwilwyr arfer fy swyddogaethau archwilio er mwyn fy ngalluogi i gyhoeddi allbynnau pellach yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol, fel:
- a adroddiadau a wneir er budd y cyhoedd;
 - b datganiadau rhesymau yn dilyn gwrthwynebiadau a wneir gan etholwyr awdurdod lleol;
 - c ymatebion i ohebiaeth; a
 - d adborth ar sail eithriad lle mae unrhyw elfen o'r wybodaeth a adolygwyd yn dynodi methiannau sylweddol i gynnal Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus neu ddiogelu a hyrwyddo hawliau dynol ar ran cyrff a archwilir.

¹⁶ Yn hytrach na barn ddiamod, a gaiff ei mynegi pan fo'r archwilydd yn barnu bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg, neu'n cael eu cyflwyno'n briodol neu'n deg (fel y bo'n briodol), ym mhob ffordd berthnasol, yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol cymwys.

- 50 Rhaid i'm harchwilwyr weithio i'm cynorthwyo yn fy nyletswydd i ystyried a ddylid cyhoeddi adroddiadau er lles y cyhoedd i dynnu sylw'r cyhoedd at amgylchiadau lle, yn fy marn i, mae corff cyhoeddus wedi camwario symiau sylweddol o arian, lle mae gan gorff cyhoeddus drefniadau llywodraethu gwael neu lle mae corff cyhoeddus wedi gweithredu y tu hwnt i'w bwerau a'i ddyletswyddau cyfreithiol.

Ardystio ceisiadau a ffurflenni

- 51 Os oes corff perthnasol yn gofyn i mi wneud hynny, rhaid i mi wneud trefniadau ar gyfer ardystio:¹⁷
- a ceisiadau neu ffurflenni ar gyfer grantiau, cymorthdaliadau neu daliadau contract a dderbyniwyd gan lywodraethau ac awdurdodau cyhoeddus;
 - b ffurflenni cyfraniadau ardrethu annomestig; ac
 - c unrhyw ffurflen arall y mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi wneud trefniadau ar ei chyfer (un enghraifft gyfredol yw cyfraniadau pensiwn athrawon).
- 52 Rhaid i'm harchwilwyr gynllunio gwaith ardystio o fewn gofynion statud. Byddaf yn annog cyrff sy'n talu grantiau i gytuno ar drefniadau ardystio priodol gyda mi cyn iddynt ardystio ceisiadau (ac unrhyw ffurflenni perfformiad cysylltiedig) yn un o amodau cyllid. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, rhaid i'm harchwilwyr ddarparu un neu'r ddau o'r allbynnau canlynol:
- a tystysgrif yn nodi eu casgliad er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol y caiff ceisiadau a ffurflenni grantiau eu datgan yn deg ac yn unol â thelerau ac amodau penodol; neu
 - b adroddiad naratif o'u canfyddiadau ar ôl cynnal cyfres o weithdrefnau sydd wedi'u cytuno â'r corff sy'n talu'r grant.
- 53 Mae'n bosibl nad ardystio fyddai'r dull mwyaf effeithiol o roi sicrwydd. Felly, rhaid i'm harchwilwyr hysbysu cyrff sy'n talu grantiau na fydd gofyn ardystio ac eithrio lle bydd cyfiawnhad clir dros wneud hynny¹⁸, yn hytrach na'i fod yn fater o drefn. Gallaf roi cyngor i gyrff sy'n talu grantiau sy'n gofyn am ardystio ar y dull mwyaf effeithiol o gael sicrwydd.

17 Diffinnir 'cyrff perthnasol' ym mharagraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

18 Mae'r ffactorau allweddol sy'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a oes cyfiawnhad dros ardystio yn cynnwys cyfanswm gwerth a thelerau ac amodau'r cynllun, lefel y risgiau a'r math o risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch y prosiect a chostau tebygol gwaith yr archwilwyr.

- 54 Lle y bydd cyrff sy'n talu grantiau wedi penderfynu bod angen ardystio, rhaid i'm harchwilwyr arfer disgresiwn o ran y ffordd fwyaf priodol o gyflawni eu rhwymedigaethau, ar ôl ystyried:
- a amgylchiadau penodol cynllun a'r symiau cysylltiedig;
 - b y lefel sicrwydd a geisir a ffynonellau eraill posibl o sicrwydd sydd ar gael;
 - c cadernid y meini prawf ariannol a darparu gwasanaeth sydd yn eu lle; a ch natur neu raddau'r gwaith angenrheidiol.
- 55 Wrth gynnal gwaith ardystio, rhaid i'm harchwilwyr ddilyn gofynion y Cyfarwyddyd Ardystio y cytunwyd arno rhwng y corff sy'n talu'r grant a mi. Lle bynnag y bo'n ymarferol, rhaid i'm harchwilwyr gyfuno eu gweithgarwch ardystio â'u harchwiliad o'r cyfrifon a gwaith archwilio gwerth am arian ac astudiaethau.
- 56 Rhaid i'm harchwilwyr ystyried hefyd a oes unrhyw ran o'r wybodaeth a adolygwyd wrth gynnal gwaith ardystio yn dynodi methiannau sylweddol i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus neu ddiogelu hawliau dynol ar ran cyrff gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid i'm harchwilwyr roi adborth ar hyn ar sail eithriad, lle y bo'n briodol.

Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian

- 57 Mae gennyf bwerau i archwilio pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol (a elwir ar y cyd yn werth am arian) mae cyrff cyhoeddus, yn unigol neu ar y cyd, yn defnyddio eu hadnoddau, ac i gynnal astudiaethau a gynlluniwyd er mwyn gwneud argymhellion ar wella gwerth am arian. Hefyd, gallaf gynnal mathau eraill o astudiaethau o gyrff llywodraeth leol.
- 58 O ran cyrff llywodraeth leol, mae gennyf ddyletswyddau i gynnal astudiaethau bob blwyddyn ariannol i'm galluogi i wneud argymhellion ar wella
- a gwerth am arian wrth gyflawni swyddogaethau awdurdodau gwella Cymru¹⁹;
 - b gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau gan gyrff llywodraeth leol eraill²⁰; ac
 - c rheolaeth ariannol neu waith rheoli arall cyrff llywodraeth leol.

19 Gelwir cynghorau sir a bwrdeistref sirol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru gyda'i gilydd yn 'awdurdodau gwella' ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

20 Mae Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn diffinio'r cyrff llywodraeth leol hynny nad ydynt yn Awdurdodau Gwella Cymru, e.e. Awdurdodau'r Heddlu a Chynghorau Cymuned.

- 59 Mae gennyf ddyletswyddau hefyd i gynnal astudiaethau gwerth am arian ar effaith darpariaethau statudol a chyfarwyddiadau a chanllawiau Gweinidogion Cymru ar gyrff llywodraeth leol. Gallaf gynnal astudiaethau eraill hefyd mewn perthynas â darparu gwasanaethau gan gyrff llywodraeth leol, a gallaf gynnal astudiaethau gweinyddu budd-daliadau ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.
- 60 Gellir cynnal y swyddogaethau hyn, ar y cyd os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff, i archwilio gwariant cyhoeddus waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau. Fel arfer, bydd canlyniadau archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian (ac eithrio rhai a gynhelir mewn perthynas â chyrrff llywodraeth leol yn unig a rhai astudiaethau sy'n ymwneud â chyrrff iechyd) yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ac yn cael eu hystyried gan ei Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus neu gan un o bwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.
- 61 O ran fy swyddogaethau archwilio a chynnal astudiaethau, byddaf yn ystyried, ymysg pethau eraill, y canlynol wrth benderfynu ar ba waith i'w gynnal:
- a budd y cyhoedd;
 - b barn y cyhoedd a'i gynrychiolwyr²¹;
 - c maint y materion a'r amgylchiadau a'r risgiau cysylltiedig;
 - ch a yw'r gwaith yn amserol; a
 - d gwerth posibl y gwaith o ran arbedion ariannol, gwella gwasanaethau a gwella trefniadau rheoli neu lywodraethu, ac a ellir trosglwyddo'r gwersi a ddysgir
- 62 Ar gyfer unrhyw archwiliad neu astudiaeth benodol, rhaid i'm harchwilwyr ddefnyddio'r dull a nodir yn y Cod hwn i ddatblygu dulliau gwaith maes sy'n eu galluogi i benderfynu i ba raddau mae gwerth am arian wedi'i gyflawni neu y gellir ei wella, neu yn achos astudiaethau nad ydynt yn ymwneud â gwerth am arian, cynnal dadansoddiadau sy'n addas i'r diben. Lle y bo'n berthnasol, bydd hyn yn ymestyn i asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, gan gynnwys unrhyw bartneriaethau darparu gwasanaeth, is-gwmnïau a threfniadau cydweithio.

21 Yn cynnwys yn arbennig farn Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol, lle y bo'n berthnasol.

- 63 Byddaf yn casglu ac yn ystyried safbwyntiau pobl sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchoddedig²² wrth benderfynu pa archwiliadau ac astudiaethau i'w cynnal. Wrth benderfynu ar gwmpas unrhyw archwiliadau ac astudiaethau sy'n berthnasol i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac wrth ddyfeisio gwaith maes ar gyfer prosiectau o'r fath, rhaid i'm harchwilwyr gasglu safbwyntiau pobl sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchoddedig, er mwyn ystyried anghenion y grwpiau hyn. Byddaf yn casglu ac yn ystyried hefyd farn rhanddeiliaid wrth gynllunio fy rhaglen o waith archwilio.
- 64 Rhaid i'm harchwilwyr roi'r egwyddorion canlynol ar waith wrth gynnal archwiliadau gwerth am arian ac astudiaethau eraill:
- a Gweithio'n effeithlon i sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o adnoddau, lleihau dyblygu gwaith a lleihau'r galw ar gyrff a archwilir drwy er enghraifft:
 - i rhannu gwybodaeth berthnasol yn fewnol yn Swyddfa Archwilio Cymru ac â chontractwyr a allai gael dylanwad neu effaith ar waith archwilio arall a gyflawnir gennyf neu i lywio rhaglenni gwaith yn y dyfodol;
 - ii rhannu gwybodaeth berthnasol â chyrff adolygu allanol;
 - iii rhoi dibyniaeth briodol ar waith a gyflawnwyd yn flaenorol gan:
 - fy archwilwyr
 - swyddogaeth archwilio mewnol unrhyw gorff archwilio
 - hunanwerthusiad corff a archwilir
 - cyrff adolygu allanol eraill
 - b Helpu gwasanaethau cyhoeddus i ddysgu oddi wrth ei gilydd drwy nodi cyfleoedd i gasglu gwybodaeth a gwersi drwy ein gwaith archwilio i'w rhannu â:
 - i chyfnwidfa arfer da Swyddfa Archwilio Cymru
 - ii cyrff adolygu allanol perthnasol
 - iii buddiolwyr perthnasol eraill
 - c Lle bo'n briodol, yn berthnasol ac yn ddefnyddiol, cynnig sylwadau a rhannu'r hyn a ddysgwyd yn sgil gwaith archwilio gyda llunwyr polisi a

²² Fel y'u diffiniwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

gweithgorau yn y sector cyhoeddus.

- ch Ar unrhyw adeg yn ystod archwiliad, ystyried gohebiaeth²³ a geir gan y cyhoedd neu bartïon eraill â buddiant, gan gynnwys unrhyw ddatgeliadau gan unigolion a gyflogir gan gyrff a archwilir²⁴, ynglŷn â materion sy'n berthnasol i fy swyddogaethau a/neu ganfyddiadau'r archwilio a'r argymhellion.
- d Ar bob adeg yn ystod archwiliad, cyfathrebu â chyrrff a archwilir a thrydydd partïon perthnasol i drafod unrhyw agwedd ar y gwaith archwilio ar lefel briodol ac mewn modd amserol.

Cynllunio

- 65 Rhaid i'm harchwilwyr gynllunio eu gwaith a chadw cofnod o'r cynlluniau hynny. Rhaid iddynt:
 - a bod â dealltwriaeth gadarn o ddeddfwriaeth archwilio berthnasol sy'n sail i'w gwaith;
 - b meddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o'r ddeddfwriaeth, polisïau, canllawiau a modelau llywodraethu sy'n gymwys i'r cyrrff maent yn eu harchwilio;
 - c cyflawni gwaith cwmpasu cychwynnol, er mwyn llywio cyfeiriad y gwaith archwilio;
 - ch cynnal dadansoddiad o'r materion a'r risgiau sy'n berthnasol i'r archwiliad a lle y bo'n briodol trefnu eu gwaith o amgylch cyfres o gwestiynau perthnasol a strwythuredig; ac
 - d cynllunio dulliau gwaith maes i fodloni'r gofynion isod.

Gwaith maes

- 66 Wrth ymgymryd â'r gwaith o gofnodi canlyniadau'r gwaith maes, rhaid i'm harchwilwyr:
 - a gasglu tystiolaeth berthnasol a digonol i alluogi dod i gasgliadau dibynadwy;
 - b ceisio cyngor arbenigol digonol wrth archwilio materion lle nad ydynt yn arbenigwyr eu hunain;
 - c lle y bo'n briodol, cofnodi ac ystyried barn, profiadau a phryderon defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill;

²³ Gall gohebiaeth gan y cyhoedd neu bartïon eraill â buddiant sy'n codi pryderon am fusnes cyhoeddus lywio ein gwaith drwy nodi materion i ymchwilio iddynt ymhellach. Rhaid i archwilwyr ymateb i bryderon y cyhoedd yn brydlon ac mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol.

²⁴ O dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn 'unigolyn rhagnodedig' sy'n gallu derbyn datgeliadau chwythu'r chwiban gan yr unigolion a gyflogir gan gyrff a archwilir mewn perthynas â chyflawni busnes cyhoeddus mewn ffordd briodol, gwerth am arian a thwyll a llygredd mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

- ch adolygu a yw cyrff a archwilir wedi rhoi sylw priodol i faterion perthnasol sylweddol a nodwyd yn flaenorol gennyf i a chyrrff adolygu allanol eraill, ac a yw'r camau a argymhellwyd wedi'u gweithredu; a
- d nodi gwybodaeth mewn ffordd sy'n hwyluso meincnodi, cymharu canlyniadau perfformiad ac adnabod arferion da, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

Cyflwyno adroddiad

- 67 Ar ôl cwblhau gwaith maes, rhaid i'm harchwilwyr:
- a naill ai ddod i gasgliadau'n seiliedig ar dystiolaeth o'u gwaith maes neu gyflwyno canfyddiadau ffeithiol;
 - b ystyried a yw eu casgliadau'n gyson â'r rhai sy'n codi o waith archwilio mewnol neu gyrff adolygu allanol eraill;
 - c penderfynu ar y negeseuon allweddol a strwythur yr allbynnau a ddefnyddir i gyflwyno adroddiad arnynt;
 - ch rhoi cyfle teg i gyrff a archwilir a thrydydd partïon perthnasol i ateb unrhyw feirniadaeth a rhoi sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y canfyddiadau – rhaid rhoi amser digonol i bartïon perthnasol gan ystyried swm y deunydd a gyflwynir a phwysigrwydd y materion i'w buddiannau – lle mae'r gofyniad i ddarparu amser digonol i ymateb yn gwrthdaro â therfynau amser gweinyddol neu statudol, y gofyniad i ddarparu amser digonol fydd yn drech;
 - d gwneud argymhellion ar gyfer gwella, lle y bo'n berthnasol, sydd, ym marn yr archwilydd yn:
 - i defnyddiol, penodol ac ymarferol, ac er budd y cyhoedd; a
 - ii yn gyson â datblygu cynaliadwy a'r egwyddor datblygu cynaliadwy (fel y'i diffinnir ym mharagraff 22) ac ystyried costau a heriau disgwylidig gweithredu (a chyflwyno adroddiad ar lle y mae'r rhain yn debygol o fod yn sylweddol).

dd cynhyrchu allbynnau:

- i sy'n cydymffurfio â gofynion adrodd statudol a phroffesiynol;
 - ii sy'n drwyadl, yn amserol, yn glir ac yn gryno;
 - iii sy'n hygyrch ac wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir, gan osgoi jargon a thermau technegol lle bo modd;
 - iv nad ydynt yn nodi enwau, teitlau swyddi neu wybodaeth arall am unigolion, oni bai bod angen gwneud hynny er mwyn darparu adroddiad cwbl ddealladwy sy'n cwmpasu'r materion perthnasol;
 - v sy'n agored ynglŷn â chwmpas a chyfyngiadau'r gwaith;
 - vi sy'n nodi a mesur arbedion effeithlonrwydd, ynghyd â chostau a risgiau tebygol sy'n wynebu cyrff cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt, pan fo hynny'n bosibl ac yn briodol; a
 - vii sy'n cynnwys neu'n cyfeirio at enghreifftiau o welliant amlwg ac arfer da, fel sy'n briodol.
- e annog a herio darparwyr gwasanaethau i wella, gan gynnwys drwy iddynt berchnogi canfyddiadau ac argymhellion yr archwiliad a rhoi sylw i unrhyw enghreifftiau o arfer da; a
- f pwysleisio mai gwendidau neu risgiau a nodwyd yn ystod y gwaith yn unig yw'r rhai a nodir a'i bod yn bosibl bod yna fwy o wendidau a risgiau.

68 Ar ôl adrodd ar eu canfyddiadau, rhaid i'm harchwilwyr:

- a gofyn am ymateb gan gyrff a archwilir a phartïon perthnasol i ganfyddiadau ac argymhellion fy adroddiad, a datgan mewn cyflwyniadau i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus neu'r pwyllgor archwilio lleol a ydynt yn fodlon bod canfyddiadau ac argymhellion wedi'u hystyried yn briodol²⁵;
- b monitro unrhyw gamau a gymerir mewn ymateb i'w hargymhellion;
- c gwneud sylwadau, yn ôl yr angen a thrwy sianeli priodol, ar gynnydd a wnaed yn rhoi argymhellion ar waith ac ar argymhellion nad ydynt wedi'u hystyried nac wedi'u rhoi ar waith yn iawn; a
- ch cyflawni gwaith archwilio pellach, lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol i fodloni gofynion statudol.

25 Y corff a archwilir sy'n gwbl gyfrifol am weithredu'r argymhellion, ac am y mecanweithiau ar gyfer gwneud hynny

Archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy

- 69 Mae Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliadau o gyrrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:
- a pennu amcanion llesiant; a
 - b cymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.
- 70 Rhaid i mi gynnal archwiliad o'r fath o bob corff cyhoeddus o leiaf unwaith yn ystod cyfnod o bum mlynedd.²⁶ Cyn diwedd y cyfnod hwnnw rhaid i mi gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ganlyniadau'r archwiliadau hynny.
- 71 Wrth gynnal archwiliad o'r fath byddaf yn ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (y Comisiynydd). Byddaf hefyd yn ystyried unrhyw gyngor neu gymorth a roddir i'r corff cyhoeddus, neu unrhyw adolygiad o'r corff a'r argymhellion a wnaed iddo gan y Comisiynydd.
- 72 Mae gofynion paragraff 64 o'r Cod hwn yn berthnasol i archwiliadau o'r fath fel pe baent yn archwiliad neu astudiaeth gwerth am arian.

²⁶ Mae'r cyfnod o bum mlynedd yn dechrau ar y dyddiad flwyddyn cyn y dyddiad y bydd etholiad cyffredinol cyffredin i'w gynnal o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae'n dod i ben ar y dyddiad un diwrnod ac un flwyddyn cyn y dyddiad ar gyfer cynnal yr etholiad nesaf o'i fath.

Cyflawni swyddogaethau archwilio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

- 73 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddarparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau archwilio Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y DU i mi, neu wneud gwaith o'r fath yn un o fy swyddogaethau (tra hefyd yn parhau i fod yn swyddogaethau'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol).
- 74 Wrth arfer swyddogaethau archwilio o'r fath, rhaid i'm harchwilwyr gynnal eu gwaith yn unol ag egwyddorion canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, yn gymesur, yn atebol a rhaid iddynt ddilyn y gofynion perthnasol eraill a nodir yn y Cod hwn.

Cwestiwn Ymgynghori 2

- a) I ba raddau rydych chi'n cytuno â chynnwys y Cod arfaethedig sy'n nodi'r ffordd y mae'n rhaid i archwilwyr fy nghynorthwyo wrth gyflawni fy swyddogaethau?
- b) Sut rydych chi'n meddwl y gallai fy Nghod gael ei ddatblygu i adlewyrchu ymhellach fy nghyfrifoldebau mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?

Atodlen 1: Swyddogaethau penodol eraill

Providing advice and assistance to the Public Accounts Committee and other committees of the National Assembly

- 75 Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol (y Pwyllgor) yn ystyried adroddiadau a baratowyd gennyf ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, ac yn ystyried pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol ydynt wrth ddefnyddio adnoddau i gyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Gall y Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiadau ei hun wedyn ar faterion a godwyd gennyf mewn adroddiadau, a gosod yr adroddiadau hynny gerbron y Cynulliad Cenedlaethol²⁷.
- 76 Gellir cyfeirio'r argymhellion a nodir yn adroddiadau'r Pwyllgor tuag at unrhyw ran o'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys dwyn cyrrff llywodraeth leol i gyfrif. Mae gofyn i Lywodraeth Cymru ymateb yn ffurfiol i adroddiadau'r Pwyllgor, i ddweud a yw'n derbyn yr argymhellion ai peidio, ac os ydyw, sut y gweithredir yr argymhellion. Bydd ymateb Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymatebion i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor i'r Llywodraeth ei hun, Cyrff a Noddwyd ganddi a chyrrff y GIG.
- 77 Fel gyda chyrrff cyhoeddus eraill, mae'n agored i'r Pwyllgor geisio cymorth proffesiynol, technegol a gweinyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru a minnau. Yn arbennig, gall y Pwyllgor ofyn am fy nghyngor ar ba mor ddigonol yw ymateb Llywodraeth Cymru i'w argymhellion. Wrth ddarparu cyngor neu gymorth o'r fath, rhaid i'm harchwilwyr sicrhau na chaiff fy annibyniaeth a'm huniondeb eu cyfaddawdu, yn wir neu'n ymddangosiadol.
- 78 Fel y nodir ym mharagraff 47, lle y bydd adroddiadau'r Pwyllgor yn cynnwys argymhellion i gyrrff a archwiliwyd, rhaid i'm harchwilwyr ddwyn yr argymhellion hynny i sylw unigolion perthnasol, er enghraifft mewn diweddariadau i bwyllgorau archwilio lleol neu'r hyn a fyddai'n cyfateb iddynt.
- 79 Lle y bydd y Pwyllgor yn penderfynu peidio â chyhoeddi ei adroddiad ei hun ar faterion a godwyd mewn adroddiad wedi'i baratoi gennyf fi, gall ddal i wahodd Llywodraeth Cymru i ymateb i'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw. O dan yr amgylchiadau hyn, gallaf gyngori'r Pwyllgor ar ba mor ddigonol yw ymateb Llywodraeth Cymru i fy argymhellion.

²⁷ Am ragor o wybodaeth, gweler **Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

80 Gall pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol hefyd ofyn am gymorth proffesiynol, technegol a gweinyddol gennyf, gan gynnwys fy nghyngor ynglŷn â pha mor ddigonol yw ymateb Llywodraeth Cymru i fy argymhellion innau neu eu hargymhellion eu hunain. Unwaith eto, wrth ddarparu cyngor neu gymorth o'r fath, rhaid i'm harchwilwyr sicrhau na chaiff fy annibyniaeth a'm huniondeb eu cyfaddawdu, yn wir neu'n ymddangosiadol.

Cyflawni swyddogaethau goruchwyllo Gweinidogion Cymru

81 Gall Gweinidogion Cymru, drwy gydsyniad gennyf ac ar ôl ymgynghori â Swyddfa Archwilio Cymru, wneud darpariaeth i mi arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau goruchwyllo cyrff cyhoeddus ar eu rhan, neu i drosglwyddo'r cyfryw swyddogaethau i mi. Golyga swyddogaethau goruchwyllo swyddogaethau archwilio, arolygu, adolygu neu astudio trefniadau ariannol neu drefniadau rheoli eraill neu'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau.

82 Wrth arfer swyddogaethau goruchwyllo o'r fath, rhaid i'm harchwilwyr gynnal eu gwaith yn unol ag egwyddorion canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, yn gymesur ac yn atebol. Rhaid i'm harchwilwyr ddilyn yr egwyddorion a nodir yn y Cod hwn ar gyfer cynllunio a chyflawni eu gwaith, llunio adroddiadau arno a chymryd camau dilynol.

83 Mae'r statud yn gwneud darpariaeth bod rhaid i mi, os yw Gweinidogion Cymru yn fy nghyfeirio i wneud hynny, baratoi adroddiad ar unrhyw swyddogaeth oruchwyllo wedi'i throsglwyddo, a rhaid i mi osod yr adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Unwaith eto, llunnir adroddiadau o'r fath yn unol â'r Cod hwn.

Rhoi cyngor a chymorth i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

84 Lle rwy'n ystyried hynny'n briodol, gallaf²⁸ roi cyngor neu gymorth i landlord cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru er mwyn i'r landlord cymdeithasol cofrestredig allu arfer ei swyddogaethau.

85 Wrth ystyried a yw darparu cyngor neu gymorth o'r fath yn briodol ac yn gymwys, byddaf yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r angen i ddiogelu annibyniaeth yr archwiliad. Byddaf hefyd yn ystyried dymunoldeb gwneud defnydd da o adnoddau cyhoeddus, yn cynnwys arbenigedd archwilio.

²⁸ O dan adran 145D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Datgelu gwybodaeth a gafwyd wrth gynnal astudiaeth mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig i Weinidogion Cymru

- 86 Gallaf²⁹ ddatgelu gwybodaeth a gafwyd gan fy archwilwyr wrth gynnal astudiaeth mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig i Weinidogion Cymru Er mwyn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i fod yn rheoleiddwyr effeithlon ac effeithiol, rhaid i'm harchwilwyr ystyried pa mor berthnasol yw'r wybodaeth a gafwyd ganddynt wrth gynnal eu hastudiaethau mewn perthynas â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i swyddogaethau rheoleiddio Gweinidogion Cymru.
- 87 Os yw fy archwilwyr yn nodi gwybodaeth berthnasol, rhaid iddynt ei rhannu â Swyddog Gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru i'w throsglwyddo i swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru, yn amodol ar ystyriaethau diogelu data a hawliau dynol. Rhaid i'm harchwilwyr gadw cofnodion o wybodaeth a rennir yn y ffordd hon. Ac eithrio lle byddai'n niweidio, neu'n debygol o niweidio, swyddogaethau rheoleiddio Gweinidogion Cymru, rhaid i'm harchwilwyr roi gwybod hefyd i'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig perthnasol am y wybodaeth sydd i'w rhannu, gan wirio'i chywirdeb â hwy cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

Cyfeirio materion sy'n gysylltiedig â nawdd cymdeithasol at yr Ysgrifennydd Gwladol

- 88 Gallaf gyfeirio unrhyw fater sy'n codi o archwiliad neu astudiaeth o llywodraeth leol at yr Ysgrifennydd Gwladol os yw'n ymddangos y gallai'r mater fod yn berthnasol i unrhyw un o swyddogaethau nawdd cymdeithasol yr Ysgrifennydd Gwladol.³⁰ Rhaid i'm harchwilwyr sy'n cyflawni gwaith llywodraeth leol ystyried perthnasedd gwybodaeth a gafwyd ganddynt yn sgil gwneud y gwaith hwnnw i swyddogaethau nawdd cymdeithasol yr Ysgrifennydd Gwladol.
- 89 Lle y bydd fy archwilwyr yn nodi gwybodaeth berthnasol, rhaid iddynt ei rhannu gyda Swyddog Gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru i'w throsglwyddo i swyddogion perthnasol Llywodraeth y DU, yn amodol ar ystyriaethau diogelu data a hawliau dynol. Rhaid i'm harchwilwyr gadw cofnodion o wybodaeth a rennir yn y ffordd hon. Ac eithrio lle byddai'n niweidio, neu'n debygol o niweidio swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, dylai fy archwilwyr roi gwybod hefyd i'r cyrff llywodraeth leol perthnasol am y wybodaeth sydd i'w rhannu, gan wirio'i chywirdeb â hwy cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

29 O dan adran 145C(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; mae'r ddarpariaeth hon yn adlewyrchu'r ffaith mai Gweinidogion Cymru yw rheoleiddwyr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

30 O dan adran 51 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004; mae'r ddarpariaeth hon yn helpu i alluogi fy ngwaith i gael ei ddefnyddio er budd swyddogaethau nawdd cymdeithasol

Cymryd rhan â 'statws arsylwi' ar weithgorau allanol

- 90 Yn aml, gofynnir i mi ddarparu cynrychiolwyr i gyfrannu ac ychwanegu gwerth ar weithgorau allanol drwy roi persbectif unigryw a diduedd ar ba mor dda y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu a sut y gellid eu gwella. Dim ond fel sylwedyddion y caiff unrhyw rai o'm harchwilwyr sy'n fy nghynrychioli weithredu ar weithgorau. Ni allant fod yn aelodau o'r grŵp ei hun, ond gallant geisio cyfrannu cymaint ag y gallant at drafodaethau drwy dynnu sylw at ganfyddiadau ac argymhellion archwilio perthnasol ac enghreifftiau o arfer da. Yn benodol, ni ddylent fod yn rhan o'r broses o benderfynu ar bolisi na gweithredu polisi sy'n codi o weithgareddau'r grŵp.
- 91 Rhaid i'm harchwilwyr sicrhau nad yw eu cyfraniad fel sylwedyddion ar weithgorau yn fy llyffetheirio mewn unrhyw ffordd wrth i mi gyflawni fy swyddogaethau archwilio amrywiol.

Cyfarwyddo cyrff llywodraeth leol i gyhoeddi gwybodaeth am eu perfformiad

- 92 Gallaf gyfarwyddo cyrff llywodraeth leol i gyhoeddi gwybodaeth a allai hwyluso'r broses o gymharu gwerth am arian a pherfformiad.
- 93 Wrth roi cyfeiriad o'r fath, rhaid i mi:
- a nodi'r math(au) o gorff llywodraeth leol y mae'r cyfarwyddyd yn berthnasol iddynt;
 - b nodi'r flwyddyn neu'r blynyddoedd ariannol y mae'r wybodaeth i'w chyhoeddi ar ei chyfer neu ar eu cyfer;
 - c pennu neu ddisgrifio'r gweithgareddau y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddynt ac ar ba ffurf y dylid ei chyhoeddi;
 - ch anfon copi o'r cyfarwyddyd i bob corff llywodraeth leol y gosodwyd dyletswyddau arnynt i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad erbyn 31 Rhagfyr fan bellaf o'r flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth sydd i'w chyhoeddi yn ymwneud â hi; ac
 - d cyhoeddi'r cyfarwyddyd mewn ffordd briodol i'w ddwyn i sylw'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr

- 94 Cyn rhoi cyfarwyddyd o'r fath, rhaid i mi ymgynghori â chymdeithasau cyrff llywodraeth leol perthnasol ac unrhyw bersonau eraill rwyf yn eu hystyried yn addas. Bydd rhaid i mi hefyd roi sylw i'r angen i wneud defnydd da o adnoddau cyhoeddus, yn cynnwys arbenigedd archwilio, a phwysigrwydd canolbwyntio ar y cyhoedd, yn enwedig gyda golwg ar ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â rheoli adnoddau cyhoeddus.

Paru data

- 95 Gallaf gynnal ymarferion paru data er mwyn atal a chanfod twyll.
- 96 Er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus Cymru yn eu brwydr yn erbyn twyll, rwy'n cynnal proses paru data sef y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yng Nghymru bob dwy flynedd. Mae'r NFI yn paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi ceisiadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus.
- 97 Caiff yr NFI yng Nghymru ei chynnal ar y cyd ag ymarferion NFI yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel y gellir paru data ar draws ffiniau cenedlaethol. Er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu a lleihau dyblygu ymdrechion, byddaf yn parhau i gydweithio ag asiantaethau archwilio cenedlaethol eraill, yn cynnwys gwaith ar gyd-ddatblygu modiwlau paru data newydd, rhannu trefniadau prosesu data a rhannu adnoddau megis staff ac arweiniad technegol.
- 98 Rhaid i'r cyfranogwyr i gyd mewn ymarferion paru data fel yr NFI, a gynhelir gennyf fi, neu ar fy rhan, gynnal eu gwaith yn unol â Chod Ymarfer ar Baru Data Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cwestiwn ymgynghori 3

I ba raddau rydych chi'n cytuno â chynnwys arfaethedig Atodlen 1 i'r Cod hwn, sy'n nodi'r ffordd y mae'n rhaid cynnal fy swyddogaethau penodol eraill?

Atodlen 2: Archwilio cyrff bach

- 99 Lle rwy'n nodi, bydd yr egwyddorion canlynol yn berthnasol i archwilio cyrff bach.
- 100 Rhaid i archwilwyr cyrff bach³¹ gyflawni archwiliad o'r cyfrifon blynyddol a gwybodaeth ychwanegol a'r esboniad a gaiff eu darparu gan y corff er mwyn fy modloni bod:
- a y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r gofynion deddfwriaethol;
 - b arferion priodol wedi'u dilyn wrth lunio'r cyfrifon; ac
 - c mae'r corff wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.
- 101 Rhaid i archwilwyr gyflawni eu dyletswyddau³², yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gennyf, drwy:
- a adolygu cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol ar gyfer y gwaith o baratoi'r cyfrifon blynyddol;
 - b cynnal adolygiad lefel uchel dadansoddol o wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall a ddarperir i'r archwilydd; a
 - c adolygu gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau sy'n angenrheidiol i roi digon o dystiolaeth bod y corff wedi cynnal trefniadau llywodraethu effeithiol, system ddigonol o reolaeth fewnol ac archwilio mewnol, ac wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau defnydd darbodus, effeithiol ac effeithlon o'i adnoddau, drwy gydol y flwyddyn ariannol.
- 102 Os oes angen tystiolaeth bellach ar sail yr adolygiad mewn perthynas ag unrhyw fater perthnasol ar yr archwilydd, rhaid cyflawni profion ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â'i bryderon.

31 Cyrff â naill ai incwm blynyddol neu wariant blynyddol sy'n is na therfyn ariannol a bennir gennyf a'i nodi mewn canllawiau a gyhoeddir gennyf o bryd i'w gilydd

32 Yn achos cyrff llywodraeth leol, rhaid i archwilwyr sicrhau eu bod yn cyflawni dyletswyddau adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

- 103 Pan fydd yr archwilydd wedi cwblhau archwiliad o'r cyfrifon blynyddol a gwybodaeth ychwanegol ac esboniad wedi'u darparu, bydd yr archwilydd yn rhoi barn ar y cyfrifon ac yn ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau. Ar sail eu hadolygiad, mae'r archwilwyr yn rhoi sicrwydd nad oes materion wedi dod i'w sylw sy'n peri pryder:
- a nad yw'r cyfrifon a gwybodaeth arall a ddarperir yn cyflwyno materion ariannol y corff yn briodol neu'n deg;
 - b nad yw'r cyfrifon a gwybodaeth arall a ddarperir yn cyd-fynd â'r gofynion penodedig; ac
 - c nad yw deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoliadol wedi eu bodloni.
- 104 Gall yr archwilydd hefyd gyhoeddi allbynnau pellach yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. Er nad yw'r rhestr hon yn cynnwys pob un dim, gall gynnwys:
- a adroddiadau a wneir er budd y cyhoedd;
 - b datganiad o resymau yn dilyn gwrthwynebiadau gan etholwyr yr awdurdod lleol;
 - c ymatebion i ohebiaeth; a
 - ch adborth ar sail eithriad lle mae unrhyw elfen o'r wybodaeth a adolygwyd yn dynodi:
 - i nad yw'r corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau defnydd darbodus, effeithiol ac effeithlon o'i adnoddau; neu
 - ii fethiannau sylweddol gan y corff a archwilir o ran cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus neu ddiogelu hawliau dynol.

Cwestiwn ymgynghori 4

I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o archwilio cyrff bach a nodir yn Atodlen 2?

Atodlen 3: Cwmpas y Cod

- 105 Mae darpariaethau'r Cod hwn yn berthnasol i'r swyddogaethau canlynol ar sail statudol:
- a Archwilio cyfrifon neu ddatganiadau ariannol sydd i'w harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol yn unol â'r ddarpariaeth a wnaed gan, neu yn rhinwedd deddf.
 - b Cynnal, cyflawni neu hyrwyddo astudiaethau neu archwiliadau gwerth am arian yn unol â'r ddarpariaeth a wnaed gan, neu yn rhinwedd deddf.
 - c Y swyddogaethau a gynhwysir yn narpariaethau canlynol Deddf Llywodraeth Cymru 1998, neu a drosglwyddwyd i'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf honno:
 - i Adran 145A(2) (cyflawni neu hyrwyddo astudiaethau eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gan gyrrff penodol);
 - ii Adran 145C(8) (datgelu gwybodaeth a gafwyd wrth gynnal astudiaeth mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig i Weinidogion Cymru);
 - iii Adran 145D (rhoi cyngor a chymorth i landlord cymdeithasol cofrestredig);
 - iv Adran 146 (trosglwyddo swyddogaethau'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â chyrff penodol i'r Archwilydd Cyffredinol); a
 - v Adran 146A (trosglwyddo ac ati swyddogaethau goruchwylio Gweinidogion Cymru i'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â chyrff penodol).
 - ch Y swyddogaethau hynny sydd wedi'u cynnwys yn narpariaethau canlynol Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:
 - i Rhan 2 (archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru);
 - ii Adran 45 (cynnal neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal, astudiaethau gweinyddu budd-daliadau); a
 - iii Adran 51 (cyfeirio materion sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol i'r Ysgrifennydd Gwladol).
 - d Y swyddogaethau hynny sydd wedi'u cynnwys yn narpariaethau canlynol Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:
 - i Paragraff 17 (hawl i weld dogfennau); a
 - ii Paragraff 20 (ardystio ceisiadau, ffurflenni ac ati ar gais corff).

- 106 Er nad yw'n ofynnol drwy statud, rwyf hefyd wedi penderfynu bod darpariaethau'r Cod hwn yn berthnasol i:
- a prif archwiliadau datblygu cynaliadwy'r Archwilydd Cyffredinol a wneir o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
a
 - b agweddau penodedig gwasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol a ddarperir drwy gytundeb o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, fel cyngor i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 1 I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r pedair egwyddor rwy'n cynnig y dylent fod yn sail i'm gwaith archwilio?
2. (a) I ba raddau rydych chi'n cytuno â chynnwys y Cod arfaethedig sy'n nodi'r ffordd y mae'n rhaid i archwilwyr fy nghynorthwyo wrth gyflawni fy swyddogaethau?

(b) Sut rydych chi'n meddwl y gallai fy Nghod gael ei ddatblygu i adlewyrchu ymhellach fy nghyfrifoldebau mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?
3. I ba raddau rydych chi'n cytuno â chynnwys arfaethedig Atodlen 1 i'r Cod hwn, sy'n nodi'r ffordd y mae'n rhaid cynnal fy swyddogaethau penodol eraill?
4. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o archwilio cyrff bach a nodir yn Atodlen 2?

Yn y ffurflen ymateb gofynnir i chi ddewis eich ymateb i bob cwestiwn o'r opsiynau canlynol.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno rhywfaint
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno rhywfaint
- Anghytuno'n gryf

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu sylwadau ategol ochr yn ochr â'ch ymatebion.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru